Merthyr Tudful
Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (2016-2031)
ARCHWILIAD
www.merthyr.gov.uk/ldpexamination

AGENDA

for

Gwrandawiad 6: Mawrth 2 Gorff 2019 am 10:00

MATER 6: POLISÏAU AR GYFER RHEOLI DATBLYGIADAU 1

Sylwadau a chyflwyniadau agoriadol

6.1. Cadwraeth Natur a Chydnerthedd Ecosystemau (polisi EnW1)

a. A yw diffiniad y Cynllun o "gydnerthedd ecosystemau" yn cyd-fynd â'r diffiniad a nodir ym mharagraff 6.4.21 o Bolisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10?

6.2. Safleoedd a Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol (polisi EnW2)

a. A ddylai polisi EnW2 gyfeirio at safleoedd yn ogystal â rhywogaethau o fewn testun y polisi?
b. A fyddai'r polisi hwn yn cael ei ddefnyddio i asesu effeithiau posibl ar Safleoedd Ewropeaidd mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos, ac os felly, a ddylid nodi hyn ym mharagraff 6.7.16?

6.3. Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (polisi EnW3)

a. A yw'r dynodiadau ar gyfer Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC) wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn a chyfredol[1]? Yn benodol, a yw'r ardaloedd dynodedig yn cwmpasu parseli o dir sy'n cyd-fynd â'r meini prawf dethol ar gyfer pob SINC?

6.4. Gwarchod yr Amgylchedd (polisi EnW4)

a. A fyddai cymhwyso polisi EnW4 yn cefnogi amcanion y polisi cenedlaethol gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ansawdd aer a seinwedd[2]?
b. A ddylai'r cyfiawnhad rhesymegol roi mwy o eglurder ynghylch sut y caiff cynigion o fewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) eu hasesu o ran y potensial i effeithio'n andwyol ar ansawdd yr aer neu ddod i gysylltiad cynyddol â llygredd?
c. A ddylai dangosydd 7.4 fonitro gweithrediad polisi EnW4 a chyfeirio at lefelau llygredd aer o fewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn hytrach na'u nifer yn unig?
d. Mae rhan olaf polisi EnW4 yn gofyn am gynigion i ymgorffori mesurau i wella ansawdd dŵr lle mae cyfleoedd yn bodoli. O ystyried y broses gydsynio sy'n bodoli ar wahân ar gyfer systemau draenio cynaliadwy, a ddylai'r cyfiawnhad rhesymegol yn 6.7.31 esbonio sut y byddai hyn yn berthnasol i geisiadau cynllunio?

---

[1] Papur Cefndir ar Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur 2018 [SD27]; Gorllewin Rhydycar – Arolwg ac Asesiad SINC 2006 [SD55]
[2] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 (PCC) paragraffau 6.7.2 i 6.7.5

6.5. Gwarchod y Dirwedd (polisi EnW5)

a. A yw'r dystiolaeth[3] yn darparu sail gadarn a chredadwy ar gyfer dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig, yn gyson â pholisi a chanllawiau cenedlaethol[4]?

6.6. Unrhyw faterion eraill

[3] Papur Cefndir: Ardaloedd Tirwedd Arbennig [SD26]

[4] PCC paragraff 6.3.11; LANDMAP Nodyn Cyfarwyddyd 1 – LANDMAP ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig 2017 (Cyfoeth Naturiol Cymru)